# Y Dirwasgiad

Yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif, Prydain oedd y wlad ddiwydiannol fwya' pwerus yn y byd.

Ond erbyn yr 1920au, roedd y gwledydd byddai fel arfer yn prynu nwyddau o Brydain nawr yn prynu wrth America.

Roedd hyn yn ergyd galed i ddiwydiant Prydain.

Maen nhw'n dweud, "Pan fydd America'n tisian, bydd gweddill y byd yn dal annwyd", a gyda chwymp Wall Street yn 1929, lledaenodd y Dirwasgiad Mawr ar draws y byd, ac effeithiodd ar Brydain hefyd.

Erbyn 1932, roedd allforion Prydain wedi haneru a bu cynnydd mewn diweithdra.

Ers 1920, roedd pobl ddi-waith yn derbyn arian tra'n chwilio am swydd – y dôl.

Roedd y prawf modd yn system fusneslyd a'r arian yn annigonol, a byddai'r rhai oedd yn gweithio'n cael eu talu nesa' peth i ddim.

Roedd pobl yn ei chael hi'n anodd dal dau ben llinyn ynghyd, a lledodd anobaith drwy'r wlad.

Ond roedd cymunedau Prydain yn barod i daro'n ôl.

Yn yr 1930au, protestiodd miloedd o'r dosbarth gweithiol, gan gyflwyno deisebau a gorymdeithio i San Steffan – fel adeg Gorymdaith Jarrow yn 1936.

Ond cafodd y protestwyr eu hanwybyddu.

Erbyn 1936, roedd awyrgylch stormus ym Mhrydain.

Roedd 9.5 milliwn o bobl yn dioddef o ddiffyg maeth – hanner ohonyn nhw'n ddifrifol.

Iechyd mamau oedd waetha' – yn aberthu eu hunain er lles eu teuluoedd.

Dianc rhag y Dirwasgiad oedd un rheswm y tyfodd y sinema a'r radio mewn poblogrwydd. Erbyn 1939, roedd tri chwarter o deuluoedd Prydain yn berchen radio ac roedd mynd i'r sinema ar gynnydd.

Wrth i hen ddiwydiannau ddioddef, ymddangosodd rhai newydd, fel cwmnïau cynhyrchu bylbiau gan greu gwaith a llygedyn o oleuni yn nhywyllwch y Dirwasgiad.

 © Hawlfraint BBC

Roedd y Llywodraeth am sicrhau bod y diwydiannau yma'n helpu'r ardaloedd cafodd eu taro'n galed gan y Dirwasgiad. Yn 1934, anogodd Deddf yr Ardaloedd Arbennig berchnogion busnesau i sefydlu ffatrïoedd yn y llefydd oedd yn dioddef fwya' – a chreu swyddi.

Ond roedd grym tywyll yn corddi ar y cyfandir.

Yn 1934, daeth Hitler yn Führer.

Ar ôl i'r Almaen gael ei threchu yn y Rhyfel Byd Cyntaf, nod Hitler oedd ad-ennill mawredd y wlad a'r tir a gollwyd. Roedd ei lygaid ar y Sudetenland yn Tsiecoslofacia.

Gan gredu y byddai'r Führer yn cadw at yr ymrwymiad heddwch, fe wnaeth gwledydd eraill Ewrop ddyhuddo Hitler a chaniatáu iddo gael y Sudetenland. Ond pan ddaeth hi'n amlwg mai gorchfygu'r gwledydd o'i amgylch oedd bwriad Hitler, 'doedd dim dewis gan Brydain ond paratoi at ryfel.

Felly yn 1938, dechreuodd Prydain gasglu metel ar gyfer ffrwydron, recriwtio wardeniaid llochesau cyrch awyr, dosbarthu mygydau nwy, gosod gynau gwrthawyrennol a balwnau amddiffyn, ac adeiladu llongau rhyfel … ffiw.

Yn sydyn roedd y wlad yn hynod o brysur gyda'r holl waith paratoi. Helpodd hyn ddod â'r Dirwasgiad i ben ym Mhrydain.

Ym Medi 1939, ymosododd Hitler ar Wlad Pwyl – gwlad roedd Prydain wedi addo ei hamddiffyn. Felly, cyhoeddodd Neville Chamberlain ei fod yn mynd i ryfel.

Roedd Prydain yn barod. Ond, roedd hi'n benderfyniad anodd i anfon bron pob dyn rhwng 18 a 41 i ryfel.

Heb os, dioddefodd Prydain yn fawr yn ystod 20 mlynedd o aflonyddwch a'r Dirwasgiad.



**© Hawlfraint BBC**